FAQ on Vulnerable Children

**When schools are closed for face to face learning which children and young people might attend the premises of mainstream schools by reason of their vulnerability?**

The school proprietor must identify children who should attend school due to their vulnerability. The proprietor must make arrangements for a child identified as vulnerable to attend school premises for the purpose of education, on the third consecutive day of closure and any subsequent school days of the closure. In identifying children the proprietor should take account of the following principles:

- all children and young people must be safe, seen, heard, nurtured and developing.
- In these circumstances schools should work together with local authorities to identify those vulnerable learners who should attend school
- the decision should consider the impact of any restrictions on the child or young person's emotional, mental and physical health, and educational development;
- the decision should consider how risks of not attending school could be mitigated through the most appropriate support for the child or young person;
- The decision should consider those who may have difficulty engaging with remote education at home (for example due to a lack of devices or quiet space to study)
- the decision should take account of the views of the child or young person and their parents/carers, so their needs can be understood and delivered through the most appropriate support;
- children and young people should be prioritised for support according to decisions about their risks and benefits;
- parents and carers should be informed of the decision;
- the risks to children and young people should be regularly reviewed and monitored on a multi-agency basis.

It is vital the school continues to actively engage with learners remotely if they are not accessing the school premises and **Learning guidance** is available to support schools and settings in doing so.

**Guidance on supporting vulnerable and disadvantaged learners** has been issued and could help in identifying and supporting learners who may

benefit from additional support.

**Pan fydd ysgolion ar gau ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb, pa blant a phobl ifanc fydd yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd oherwydd eu bod yn agored i niwed?**

Rhaid i berchnogion ysgolion nodi'r plant a ddylai fynychu'r ysgol oherwydd eu bod yn agored i niwed. Rhaid i berchnogion ysgolion wneud trefniadau ar gyfer plant sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n agored i niwed er mwyn iddynt allu mynychu'r ysgol at ddiben addysg, ar y trydydd diwrnod ysgol a phob diwrnod ysgol dilynol yn y cyfnod pan fydd yr ysgol ar gau. Wrth nodi'r plant, rhaid i berchnogion ysgolion ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

- rhaid i bob plentyn a pherson ifanc fod yn ddiogel a chael eu gweld, eu clywed, eu bwydo a chael cyfle i ddatblygu
- yn yr amgylchiadau hyn, dylai ysgolion weithio gyda'i gilydd i nodi'r dysgwyr agored i niwed a ddylai fynychu'r ysgol
- dylai'r penderfyniad ystyried effaith unrhyw gyfyngiadau ar iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol y plentyn neu'r person ifanc, ac ar ei ddatblygiad addysgol
- dylai'r penderfyniad ystyried sut y gellid lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â mynd i'r ysgol drwy gynnig y cymorth mwyaf priodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc
- dylai'r penderfyniad ystyried y rheini sy'n ei chael yn anodd ymgymryd ag addysg o bell gartref (er enghraifft oherwydd diffyg dyfeisiau neu fan tawel i astudio)
- dylai'r penderfyniad ystyried safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr, fel y gellir deall eu hanghenion a'u diwallu drwy gynnig y cymorth mwyaf priodol
- dylai plant a phobl ifanc gael eu blaenoriaethu i gael cymorth yn unol â phenderfyniadau ynghylch eu risgiau a'u manteision
- dylai rhieni a gofalwyr gael eu hysbysu o'r penderfyniad

- dylai'r risgiau i blant a phobl ifanc gael eu hadolygu'n rheolaidd a'u monitro gan sawl asiantaeth

Mae'n hanfodol bod yr ysgol yn parhau i ymgysylltu â'r dysgwyr o bell os nad ydynt yn mynychu'r ysgol ac mae **canllawiau ar ddysgu** ar gael i gefnogi ysgolion a lleoliadau i wneud hynny.

Mae **canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais** wedi eu cyhoeddi a gallent helpu i nodi a chefnogi dysgwyr a all elwa ar gymorth ychwanegol.